

# Grym galar

“Y mae fy nghalon mewn gwewyr, a daeth ofn angau ar fy ngwarthaf.” (adn. 4)

## Beth am ddarlenn Salm 55:1–23 ac yna myfyrio

Mater arall mae'n rhaid inni ei wynebu fel rhai sydd â rhannau yn stori fawr Duw ydy hyn: *rhaid inni fod yn barod i alaru*. Rwy'n ymwybodol nad ydy hon yn thema sy'n boblogaidd gyda mwyafrif Cristnogion heddiw, sydd fel petaen nhw'n meddwl mai'r peth gorau i'w wneud gydag unrhyw deimlad negyddol pan fo'n codi ydy ei anwybyddu a chymryd arnyn nhw nad ydy o yno. Ydych chi'n sylweddoli bod 70% o'r Salmau yn alarnadau? Roedd y galarnadau yma'n codi oddi wrth y siomedigaethau, y colledion, a'r trasiadau a wynebai'r salmwyr, oherwydd nad oedden nhw'n fodlon osgoi'r materion yma na gwadu chwaith fod pethau fel ag yr oedden nhw.

Dywed un esboniwr “bod diwinyddiaeth galaru yn un o'r agweddau y rhoddir y lleiaf o sylw iddo yn niwylliant Cristnogol ein dydd”. Dywed Eugene Paterson wrth gymharu'r Salmau gyda diwylliant secwlar ein cyfnod: “Mae gennym ni arddull newyddiadurol mewn print ac ar y cyfryngau sydd yn adrodd yn ddi-ddiwedd am drychineb. Yn sgîl beth bynnag sydd wedi mynd o'i le neu ba ddrwg bynnag a wneir, mae sylwebyddion yn straella, newyddiadurwyr yn cyfweld, golygyddion yn rhefr, phariseaid yn moesegu, ond does dim un llinell o alarnad.” Sylwch ar yr ychydig eiriau olaf yna: *does dim un llinell o alarnad*. Ychydig o ysgrifenydd secwlar heddiw sydd yn fodlon galaru am y ffaith bod egwyddor foesol wedi ei thorri. Pam hynny? Am y rheswm, o siarad yn gyffredinol, nad ydy'r fath bethau â gwirionedd, cyfiawnder a chariad yn cael eu cymryd o ddifrif yn y byd sydd ohoni. Yr hyn sy'n cyfrif ydy “newyddion”. Mae pobl yn galw allan am y ffeithiau, ac yn aml heb fod â diddordeb yn yr ystyriaethau moesegol sydd yn eu tanlinellu. Pan fyddwn ni'n gwneud yn fach o rinweddau gwirionedd, cyfiawnder a chariad, yna mae ein cymdeithas yn anelu am y creigiau.

Gwrandewch ar eiriau Dafydd yn y Salm o'n blaenau heddiw. Mae o'n wynebu popeth ac yn gweddïo trwy bopeth. Fe honna Eugene Paterson mai: “Canlyniad galarnadau Dafydd yw'r mawrhydi gerwin a'r urddas sy'n ei osod ben ac ysgwyddau'n uwch na neb arall.” Rwyf innau'n cytuno.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Salm 137:1–6; 2 Sam. 18:29–19:4

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sy'n dangos dwyster galarnad yr alltudion am Jerwsalem?
2. Sut ddaru Dafydd fynegi dyfnder ei alar ef am Absalom?

## Gweddï

Fy Nhad a'm Duw, helpa fi i ddeall pwysigrwydd galarnadu. Arbed fi rhag ceisio mynd o un fan i fan arall yn rhy gyflym, heb roi amser i'm henaid deimlo'r boen. Yn enw Iesu y gweddïaf. Amen.